

**Llywodraeth Cymru**  
**Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet**  
**8 Gorffennaf 2019**

Yn bresennol: Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AC, y Prif Weinidog  
Rebecca Evans AC  
Vaughan Gething AC  
Lesley Griffiths AC  
Julie James AC  
Eluned Morgan AC  
Ken Skates AC  
Kirsty Williams AC  
Jeremy Miles AC  
Jane Hutt AC

Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol  
Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog  
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd Preifat Prif Weinidog Cymru  
Will Whiteley, Pennaeth Is-adran y Cabinet  
Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol  
Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig  
David Davies, Cynghorydd Arbennig  
Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig  
Dan Butler, Cynghorydd Arbennig  
Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig  
Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig  
Mitchell Theaker, Cynghorydd Arbennig  
Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig  
Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)  
Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet  
Simon Brindle, Cyfarwyddwr, Strategaeth Brexit (eitem 4)  
Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys (eitem 5)  
Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol (eitem 5)  
Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Môr (eitem 6)  
Olwen Spiller, Pennaeth Ansawdd Aer, Sŵn a Chemegau (eitem 6)  
Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr Masnach a Buddsoddi Rhyngwladol (eitem 7)

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin.

**Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog**

Cyfathrebu â Llywodraeth newydd y DU.

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet ei bod yn debygol y byddai'r Prif Weinidog newydd wrth ei waith yn Llywodraeth y DU erbyn diwedd y mis, yn sgil canlyniad etholiad y blaid Geidwadol i benodi arweinydd.

- 2.2 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n ysgrifennu at Brif Weinidog newydd y DU unwaith y byddai hwnnw yn ei swydd, er mwyn egluro blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Brexit a llywodraethiant y DU.

### **Eitem 3: Busnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn**

- 3.1 Ystyriodd y Cabinet gynnwys Grid y Cyfarfodydd Llawn, gan nodi bod datganiad ychwanegol ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir wedi ei amserlennu ar gyfer y diwrnod canlynol.

### **Eitem 4: Y newyddion diweddaraf am Brexit**

- 4.1 Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit wrth y Cabinet ei fod ef, ac Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Busnes y Llywodraeth yn yr Alban, wedi ysgrifennu at Weinidog Swyddfa Cabinet y DU, ar 4 Gorffennaf, ynghylch yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Er ei bod yn gadarnhaol bod egwyddorion yr Adolygiad wedi cael eu cyhoeddi cyn bod Prif Weinidog a Llywodraeth newydd ar gyfer y DU, a bod ymrwymiad wedi ei wneud i gyflawni rhagor o waith ar ddatrys anghydfodau, roedd siom ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed mewn perthynas â chanlyniadau'r Adolygiad, a oedd wedi ei gomisiynu 15 mis yn ôl.
- 4.2 Nododd y Cabinet y byddai pecyn newydd o gymorth gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi'r diwrnod canlynol, er mwyn helpu Dinasyddion yr UE i baratoi ar gyfer Brexit. Roedd y cymorth, a oedd yn cael ei ariannu'n bennaf drwy Gronfa Bontio'r UE, yn cynnwys: darparu cymorth gyda cheisiadau drwy'r rhwydwaith Canolfannau Cyngor ar Bopeth; gwasanaeth rhoi cyngor ar fewnfudo a oedd yn cynnig cymorth arbenigol gydag achosion cymhleth; a gweithio gydag elusennau a phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r angen i wneud cais am statws preswlydd sefydlog.

### **Eitem 5: Yr wybodaeth ddiweddaraf am baratoadau Cyllideb Ddrafft 2020-21**

- 5.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y papur, a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am baratoadau'r Gyllideb.
- 5.2 Nid oedd Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw eglurder ynghylch ei chynlluniau i gynnal Adolygiad o Wariant. Roedd gohebiaeth ddiweddar gan Drysorlys y DU yn dal i gyfeirio at gyhoeddiad y Canghellor presennol ym mis Mawrth y byddai Adolygiad o Wariant yn cael ei gynnal yn ystod yr haf, gan ddod i ben yr un pryd â Chyllideb yr Hydref. Fodd bynnag, roedd datganiadau eraill gan Weinidogion y DU a'r ymgeiswyr am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol wedi awgrymu amrywiaeth o senarios posibl, gan gynnwys y posibilrwydd o ymestyn cynlluniau gwariant am un flwyddyn yn unig.

- 5.3 Bu llawer o ddatganiadau gan y ddau ymgeisydd ynghylch eu hagendaâu cyllidol, ond ar hyn o bryd ni fyddai'n ddoeth dod i unrhyw gasgliadau ynghylch yr hyn y byddent yn ei wneud unwaith bod un ohonynt yn cael y swydd, neu beth y gallai hyn ei olygu ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, gwelwyd tystiolaeth eisoes o'r effaith negyddol yr oedd Brexit a'r ansicrwydd gwleidyddol ehangach yn ei chael ar yr economi.
- 5.4 Er gwaethaf yr heriau hyn, y nod oedd darparu cymaint o dryloywder â phosibl ynghylch setliadau yn y dyfodol. Y bwriad oedd cyhoeddi Cyllideb ddrafft ar 10 Rhagfyr, gyda'r Gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi ar 3 Mawrth 2020.
- 5.5 Roedd yn bosibl y gallai Llywodraeth y DU gyhoeddi Cyllideb gynharach, o bosibl mor gynnar â mis Medi, a phe bai hynny'n digwydd byddai'r Llywodraeth yn mynd ati i ddwyn amserlen y Gyllideb ymlaen.
- 5.6 Croesawodd y Cabinet y papur, gan nodi y byddai'r Gweinidog yn gwneud Datganiad Llafar ar 'Ragolygon y Dyfodol ar gyfer Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru' ar 16 Gorffennaf.
- 5.7 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

#### **Eitem 6: Cyfeiriad Strategol y Cynllun Aer Glân drafft i Gymru**

- 6.1 Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet ddarparu trywydd ar gyfer cyfeiriad strategol y polisi ansawdd aer a'r Cynllun Aer Glân drafft, a hynny at ddibenion cynnal ymgynghoriad yn yr hydref.
- 6.2 Llygredd Aer oedd y risg amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU, ac roedd yn effeithio ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau, ac yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, roedd y cynllun Ffyniant i Bawb yn ymrwymo'r Llywodraeth i leihau allyriadau ac i sicrhau gwelliannau hanfodol yn yr ansawdd aer yng Nghymru.
- 6.3 Roedd y papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau allweddol a oedd yn cael eu cymryd i gyflawni'r ymrwymadau yn atodiad Cymru i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â lefelau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd yng Nghymru. O ran yr achosion pan nad oedd sefyllfa'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb yr UE ar Aer yr Amgylchedd ar gyfer Nitrogen Deuocsid, roedd Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer sicrhau cydymffurfedd, a nawr byddai angen i Weinidogion Cymru benderfynu ar y ffordd orau ymlaen.
- 6.4 Roedd y papur hefyd yn ceisio sylwadau am y strwythur a'r amserlen ar gyfer gweithredu'r Cynllun Aer Glân i Gymru. Roedd ymchwil i gasglu tystiolaeth wedi cael ei chomisiynu er mwyn nodi'r polisiâu mwyaf effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael, ac roedd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ar draws y Llywodraeth gyda'r nod o'i gwblhau erbyn diwedd mis Awst.

- 6.5 Byddai'r Cynllun hwn yn tynnu ynghyd bolisiâu sy'n bodoli eisoes o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a meysydd eraill lle'r oedd ffocws ar ansawdd aer wedi cael ei integreiddio. Hefyd, byddai polisiâu newydd yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru pe bai angen, a byddai polisiâu sy'n bodoli eisoes, megis Polisi Cynllunio Cymru, a oedd yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd aer a seinweddau priodol ar gyfer cynnal iechyd a llesiant pobl a'r amgylchedd, yn cael eu hadnewyddu.
- 6.6 Hwn fyddai'r Cynllun Aer Glân traws-lywodraethol cenedlaethol cyntaf, a byddai angen cael cytundeb ar y cyd o ran lefel yr uchelgais, gan ymrwmo i ddarparu a chefnogi'r camau priodol. Hefyd roedd gwaith yn mynd rhagddo i ystyried darpariaethau posibl a allai gael eu cynnwys mewn Bil Aer Glân i Gymru a allai fod yn rhan o raglen ddeddfwriaethol y Cynulliad nesaf. Ffocws y Bil fyddai cyflwyno fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol addas i'w ddiben ar gyfer ansawdd aer.
- 6.7 Croesawodd y Cabinet y papur, ac roedd y rheini a oedd yn bresennol yn cytuno nad oedd y gwaith o fynd i'r afael â llygredd aer yn fater i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn unig, a bod angen sicrhau newidiadau i ymddygiad y cyhoedd yn gyffredinol. Cydnabuwyd bod angen egluro wrth fodurwyr paham yr oedd terfynau cyflymder wedi eu gosod ar rai ffyrdd, a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr arwyddion ffyrdd. Roedd yn bwysig gwneud rhywbeth i atal gyrwyr rhag cadw peiriannau eu cerbydau i fynd tra'n aros yn segur, gan fod hynny hefyd yn ffynhonnell llygredd sylweddol.
- 6.8 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

## **Eitem 7: Strategaeth Ryngwladol**

- 7.1 Cyflwynodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ryngwladol ddrafft a'r bwriad i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos arni.
- 7.2 Ers i'r Llywodraeth gyhoeddi Cymru yn y Byd yn 2015, a oedd yn gosod agenda ryngwladol Llywodraeth Cymru a'r camau y byddai Cymru yn eu cymryd i sefydlu presenoldeb cryf mewn gwahanol rannau o'r byd, roedd y cyd-destun byd-eang wedi newid yn sylweddol.
- 7.3 Canlyniad y refferendwm ar yr UE a'r ansicrwydd parhaus am berthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd, oedd yr her ddomestig a rhyngwladol fwyaf yr oedd y DU wedi ei hwynebu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Waeth beth fyddai canlyniad terfynol Brexit, roedd y Llywodraeth wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnal cysylltiadau cadarn â'n cymdogion Ewropeaidd a'n partneriaid masnachu agosaf.
- 7.4 Roedd y Strategaeth Ryngwladol draws-lywodraethol wedi cael ei datblygu yn erbyn y cefndir hwn. Roedd yn disgrifio gweledigaeth strategol y Llywodraeth ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar feysydd o uchelgais penodol, ac yn amlygu blaenoriaethau mewn byd a oedd yn newid yn gyflym. Ar yr un pryd

roedd yn parhau â'r angen i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i amgylchiadau a chyfleoedd newydd.

7.5 Croesawodd y Cabinet y papur gan longyfarch y swyddogion a oedd wedi datblygu'r Strategaeth.

7.6 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.